# Adroddiad Blynyddol 2019/20

## Cyng. Annwen Hughes

## Plaid Cymru

## Ward Llanbedr



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

# Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Parhau i weithio yn y gymuned a chyd-weithio gyda'r Cynghorau Cymuned Leol i wneud yn siŵr fod buddiannau'r gymuned yn cael eu diogelu.
- Helpu ar bob cyfle bosib yn y gegin cawl a gynhelir ar gyfer henoed pentrefi Llanbedr a Llanfair, gan hefyd achub ar y cyfle i gael sgwrs gyda'r trigolion sy'n mynychu a gwrando ar eu pryderon a'u cwynion. 'Roedd y rhain yn cael eu cynnal pob pythefnos nes iddynt gael eu gohirio ganol mis Mawrth oherwydd y feirws COVID 19.
- Ymweld â'r Ysgol Gynradd yn Llanbedr yn rheolaidd, ond ar hyn o bryd yn cadw mewn cysylltiad gyda'r Pennaeth drwy e-bost.
- 'Rwyf yn dal i ymgyrchu gyda Swyddogion Network Rail i gael rhwystrau ar groesfan Talwrn Bach, Llanbedr.
- Derbyniodd y Cynllun Ffordd Osgoi Caniatâd Cynllunio ym Mawrth 2020. Rwyf yn parhau i gadw cysylltiad gyda'r Swyddogion perthnasol i weld beth yw y newyddion diweddaraf gyda'r cynllun pwysig hwn.
- Bu i mi fynychu y seremoni o droi goleuadau Nadolig Pentref Llanbedr ymlaen a bod yn rhan o'r noson gymdeithasol gafodd ei chynnal ddiwedd Tachwedd.
- Trefnais i fynd o amgylch y Pentref gyda rhai o'r trigolion lleol i gasglu ysbwriel.
- Mynychais Eisteddfod Flynyddol Ardudwy – rwyf yn Drysorydd yr Eisteddfod ers sawl blwyddyn.
- Bu i mi fynychu Ffair Nadolig a Sioe Nadolig Ysgol Gynradd Llanbedr.
- Mynychais Wasanaeth Carolau Ysgol Ardudwy

- Ers y cychwyn y cyfnod clo ar y 23ain o Fawrth ‘rwyf wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda thrigolion Llanbedr a Llanfair. Yn ystod y cyfnod, rwyf wedi derbyn sawl galwad ffôn, e-bost a neges ynglŷn â materion yn cynnwys
- Ail gartrefi
- Campio gwyllt yn y cymoedd
- Aros yn anghyfreithlon mewn mannau

Yn sgil hyn, rwyf wedi bod mewn cyswllt gyda’r Heddlu ar sawl achlysur.

Yn ystod y cyfnod clo, rwyf hefyd wedi ymweld â thrigolion (ar eu cais), gan gadw pellter cymdeithasol wrth reswm.

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

Yn ychwanegol i’r cyfarfodydd a restrir drwy y ddolen uchod, rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd

- Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanbedr (Cadeirydd y Bwrdd)
- Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy (Cadeirydd y Bwrdd ers Medi 2018)
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (fel Aelod)
- Cyngor Cymuned Llanbedr a Llanfair (yn fisol)
- Pwyllgor y Neuadd Bentref yn Llanbedr (yn rheolaidd)
- Grŵp Rhanddeiliad Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr
- Mae sawl cyfarfod ers y cyfnod clo wedi cael ei gynnal ar ffurf Zoom neu Teams e.e Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy gan gynnwys cyfweliadau swyddi dysgu, cyfarfodydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ayb

Mae rhai cyrff heb gynnal cyfarfodydd o gwbl ac wedi bod yn cysylltu drwy yr e-bost

| | |
|---|---|
| Rhagfarn heb wybod | 26/02/2020 |
| Trwyddedu | 07/10/2019 |
| Merched yn y Cyngor - Ein lle ni (Grŵp Llywio) | 30/09/2019 |
| Ail Fodelu Gofal Cartref | 20/05/2019 |
| Ymwybyddiaeth Awtistiaeth | 15/05/2019 |